# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 9fed 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Jones (is-gadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Huw Edwards, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
ii) Datgan Buddiant – gweler cais cynllunio Llwyn Mawr Canol, Parc.

**iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.**
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd y goeden a oedd yn amharu ar y gamfa gyferbyn a Rhydyfen, Arenig wedi cael ei thorri.
ii) Ffordd o Parc i Gastell Hen a Talybont - nid oedd y tyllau yn cyrraedd y trothwy i'w atgyweirio'n syth ond byddant yn parhau i'w harolygu'n rheolaidd. Roedd y gweithlu am wneud gwaith ymchwil i ddarganfod beth oedd wedi creu difrod i'r culfet.

b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned.
Adroddodd y clerc fod cynnig am arian ychwanegol wedi cyrraedd ar ôl y cyfarfod diwethaf ac wedi ymgynghori, cytunwyd i ddefnyddio'r arian i brynnu pabell gymunedol a sgrin, taflunydd a chadeiriau i Neuadd Parc. Roedd cais y Cyngor wedi bod yn llwyddianus a derbyniwyd £7,500. Gan fod stoc o'r babell yn isel bu rhaid symud yn gyflym i'w archebu a thalu amdani cyn hawlio'r arian yn nôl o'r Gronfa. Bydd y clerc yn symud ymlaen rwan i archebu'r taflunydd, sgrin ayyb.

c) Sedd wag ar y Cyngor.
Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd nad oedd cais wedi ei dderbyn am etholiad felly roedd posib i'r Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd Cyfethol'

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhybudd cau'r ffordd, chyffordd Bryn Ifan i Lidiardau, ar y 11 & 16 o Fedi. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â swyddog Dŵr Cymru i sicrhau na fyddai'r bws ysgol yn cael problemau pasio fel yn y gorffennol.
ii) Gwahoddiad i gyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn, Mehefin 2025.

b) Un Llais Cymru.
i) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd. Roedd y cynghorwyr yn teimlo y byddai'r dyletswydd o ddarlledu ychwanegol yma yn gostus ac y byddai'n well defnyddio'r arian ar wasanaethau hanfodol eraill.
ii) Nodau Datblygu Ymarfer Diweddariedig.

c) Amrywiol.
i) Gwahoddiad i Wŷl Glan-Llyn, 27/09/25. Yn anffodus nid oedd y cynghorwyr ar gael i fynychu'r digwyddiad.
ii) Bygythiad i gyllido elusennau sy'n darparu gofal cymdeithasol. Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fygythiad i gyllido gofal cymdeithasol hanfodol fel hyn.
iii) Clwb Hoci Y Bala - gwahoddiad i agoriad swyddogol cae astro newydd, 10/09/25.
iv) Cais am arosfan bws i Lanycil – gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r adrannau perthnasol.
v) Cylch yr Iaith – Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.
vi) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala 2025.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

v) Ceisiadau Cynllunio.
NP5/72/144B - Codi garej triphlyg a gweithdy/storfa ar wahân, a gwaith cysylltiedig. Bryn Tegid, Llanycil,
NP5/72/258 - Gosod grid gwartheg. Tir ger Rhydlechog, Frongoch.
NP5/72/250J - System atal cerbydau (Rhwystr traffig). Cronfa Ddŵr Llyn Celyn, Frongoch.
NP5/72/260 - Estyniad ac addasiadau. Llwyn Mawr Canol, Parc (Huw Edwards yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Derbyniadau.
Derbyniwyd ail randal y Praesept - £2,375.

c) HSBC.
Cafwyd ein cynghori na fydd y banc yn codi'r ffi misol o mis Gorffennaf ymlaen.

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu (i – iv wedi cael eu talu eisoes):-
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh).
ii) TWE.
iii) McAfee.
iv) Gala Tents.
v) Cyngor Gwynedd.

Cytunwyd i beidio talu anfoneb Archwilio Cymru tan y byddant wedi egluro'r ffi a godwyd.

d) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Gofal Ganser Tenovus a Cerebral Palsy Cymru a chytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 14eg am 8.00 y.h.
yn Neuadd Maesywaen.**


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….